NODYN MEWN PERTHYNAS Â GORCHYMYN DRAFFT

GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (OCHR DDEHEUOL BASN Y RHATH, CAERDYDD) 200-

Mewn perthynas â'r dogfennau sydd wedi'u hadneuo, tynnir sylw at y nodiadau canlynol:

1 Nid yw'r Datganiad o Resymau yn rhan o'r Gorchymyn drafft, ac fe'i darperir er gwybodaeth yn unig.

2 Mae atodlen y Gorchymyn drafft yn cydymffurfio â ffurf yr atodlen a gyhoeddwyd yn Ffurf 3 Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Ffurfiau Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004. Fodd bynnag, mae'r ffurf ragnodedig hon, mewn perthynas â thir categori arbennig, yn cyfeirio at Adrannau 17(2), 18 neu 19 yn unig o Ddeddf Caffael Tir 1981, ac nid yw'n cyfeirio at ddarpariaethau tebyg o ran hawliau newydd dros dir categori arbennig a gynhwysir yn Adran 28 ac Atodlen 3 yr un Ddeddf. Ystyrir bod hwn yn ddiffyg yn y ffurf ragnodedig ac, i'w wneud yn eglur i unrhyw un sy'n darllen y Gorchymyn, mae'r wybodaeth yn y tabl byr ar waelod y Gorchymyn wedi cael ei diwygio er mwyn cyfeirio at y darpariaethau cywir yn y Ddeddf.